



NHS
WALES
GIG
CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Penodi Is-Gadeirydd

Dyddiad cau: 13 Mai 2018



**The Commissioner for
Public Appointments**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cynnwys

	Tudalen
Gwneud cais	3
Atodiad A: Rôl yr Is-gadeirydd	6
Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	11
Atodiad C: Y broses ddethol	12

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Gwneud cais

Diolch i chi am fynegi diddordeb yn y penodiad ar gyfer Is-gadeirydd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd yn ofynnol i'r Is-gadeirydd newydd gymryd rhan fel aelod llawn o'r Bwrdd sy'n gosod y strategaeth ar gyfer y sefydliad, gan chwarae rôl lawn a gweithgar yn llywodraethiant y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd yn fwrdd colegol a'r aelodau â hawliau pleidleisio. Ceir rhagor o wybodaeth am reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol drwy'r ddolen ganlynol <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/made>. Yn ogystal â hyn, bydd disgwyl i chi herio'n adeiladol, cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau gan y Bwrdd a chraffu ar berfformiad y Tîm Gweithredol o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl yr Is-gadeirydd, manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon drwy eich cyfrif.

Byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais yn syth ar ôl ichi gofrestru. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Er hynny, fe ddylech geisio darparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut mae'ch gwybodaeth a'ch profiad yn bodloni pob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl wrth gyflawni canlyniadau penodol. Byddai hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir i ba faen prawf y mae tystiolaeth benodol yr ydych yn ei darparu yn perthyn. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'ch datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Mae'n bosib y caiff eich cais ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol, gan ddefnyddio dim mwy na 2 dudalen A4.

Rhowch fanylion eich profiad o arwain a datblygu sefydliad ar lefel uwch ar fwrdd neu ar lefel gyfatebol a'ch gallu i edrych tua'r dyfodol ac arwain yn strategol.

Drwy roi enghraifft benodol, dangoswch eich profiad o ddatblygu perthynas effeithiol gyda rhanddeiliaid, a sut y gallai hyn fod yn berthnasol i weithio gydag

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Ymddiriedolaethau'r GIG, Llywodraeth Leol, y Trydydd Sector a Phartneriaid Cymdeithasol, cleifion, cymunedau lleol a chontractwyr gofal sylfaenol.

Rydym yn chwilio am bobl â dealltwriaeth o'r berthynas rhwng dyrannu a rheoli adnoddau a chyflenwi blaenoriaethau gwasanaeth o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol cadarn. Yn y cyd-destun hwn, disgrifiwch ym mha ffordd yr ydych wedi cyfrannu at gynllunio, datblygu a darparu gwasanaeth yr oeddech yn gyfrifol amdano.

Dangoswch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion iechyd a gofal yng nghydestun Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar lefel cymuned, awdurdod lleol a chenedlaethol.

Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau rhyngpersonol cadarn i ddangos dylanwad personol a hygredded i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol â sgiliau dylanwadu a thrafod cadarn.

CV

Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau: 13 Mai 2018

Creu rhestr fer: Yr wythnos yn dechrau 21 May 2018

Cyfweliadau: Yr wythnos yn dechrau 11 Mehefin 2018

Dyddiad dechrau: Cyn gynted a phosibl

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol. Fe fydd ceisiadau'r ymgeiswyr yn cael eu hystyried yn erbyn anghenion amrywiaeth penodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd ag anableddau. Mae'r cynllun yn gwarantu cyfweliad i bobl anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'r ffurflen gais yn gyfle ichi nodi hefyd unrhyw anghenion neu offer penodol fydd ei angen arnoch os cewch eich gwahodd i gyfweliad.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Ganolfan Cydwasanaethau Corfforaethol

Ffôn: 03000 255454

E-bost: publicappointments@llyw.cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Is-gadeirydd, cysylltwch ag Ann Lloyd CBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. E-bost: Ann.Lloyd@wales.nhs.uk neu Richard Bevan, Ysgrifennydd y Bwrdd, Ffôn: 01633 435959. E-bost: richard.bevan@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, efallai yr hoffech fynd i wefan y Bwrdd Iechyd: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/866/home>

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Atodiad A

Penodi Is-Gadeirydd

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae hwn yn gyfle gwyb i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Bydd yr Is-gadeirydd yn aelod o'r Bwrdd ac yn dirprwyo ar ran y Cadeirydd, os bydd yn absennol am unrhyw reswm.

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd yr Is-gadeirydd, ymhlith pethau eraill, yn:-

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu, o safbwynt clinigol a chorfforaethol. Byddwch yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau, gan gynnig eich barn a herio a chefnogi'r Bwrdd ar faterion allweddol;
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorfennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli beunyddiol;
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw.
- Yn dod, ymhen amser, i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol.
- Gweithio'n agos gyda chyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd a rhanddeiliaid pwysig yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau;

Yn ogystal â'i rôl gorfforaethol ar draws holl gyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, bydd gan yr Is-gadeirydd gyfrifoldeb penodol dros oruchwylio gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu gan sicrhau model gofal cytbwys sy'n diwallu anghenion pobl sy'n byw yn ardal y Bwrdd Iechyd. Bydd dealltwriaeth o ddulliau gweithredu a blaenoriaethau rhanddeiliaid pwysig, fel llywodraeth leol a'r trydydd sector, yn bwysig.

Bydd yr Is-gadeirydd yn:

- **Cynnig arweiniad cryf, effeithiol a gweladwy** ar draws gwasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu; yn fewnol drwy'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ac yn allanol drwy ei gysylltiadau ag ystod eang o rhanddeiliaid a phartneriaid ar lefel ehangach y gymuned ac yn genedlaethol
- **Cadeirio** Pwyllgor Deddfwriaethol Iechyd Meddwl y Bwrdd sy'n goruchwylio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd meddwl a chodau ymarfer cysylltiedig
- **Cymryd cyfrifoldeb dros** graffu ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu. Yn gweithio o fewn fframwaith llywodraethu'r Bwrdd Iechyd i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod gwaith system gyfan yn cael ei wneud yn effeithiol ar sail llwybrau gofal integredig

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- **Gweithio'n agos** gyda'r Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Adranol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ynghyd â chydweithwyr mewn llywodraeth leol i gytuno ar raglen waith integredig a'i chyflwyno, er mwyn adlewyrchu anghenion pobl sy'n byw yn ardal y Bwrdd, ac i fedru cyflawni blaenoriaethau'r bwrdd iechyd, y fforwm partneriaeth a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd.
- **Gweithio'n effeithiol** gyda phartneriaid yn y gymuned, yn arbennig yn ei faes cyfrifoldeb ac yn fwy eang a chefnogi'r Cadeirydd i sicrhau bod diwylliant ac arferion gwaith y sefydliad yn seiliedig ar ysbryd o bartneriaethau agored, ystyrlon a chynaliadwy. Bydd gan yr Is-gadeirydd sgiliau cyfathrebu rhagorol a, thrwy graffu effeithiol, bydd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod strwythurau'r sefydliad yn rhoi pwys cyfartal ar wasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol ac iechyd meddwl ac ar wasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd, gan roi cyfle i wasanaethau contractwyr, llywodraeth leol a phartneriaid trydydd sector chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau
- **Cefnogi prosesau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd**, i sicrhau system rheoli a gwella perfformiad integredig
- **Helpu i feithrin a chynnal perthynas uniongyrchol** â gweithwyr proffesiynol sy'n contractwyr gofal sylfaenol, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn yng ngwaith y Bwrdd Iechyd
- **Mabwysiadu rôl fel llysgennad allanol**, gan gynrychioli'r Bwrdd yn gyhoeddus a meithrin hyder y cyhoedd.

Manyleb y Person

Bydd pob Is-gadeirydd yn dangos y priodoleddau canlynol:-

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad o arwain a datblygu sefydliad preifat, cyhoeddus neu drydydd sector llwyddiannus, a'r gallu i edrych i'r dyfodol a chynnig arweiniad strategol
- Profiad o ddeall y berthynas rhwng dyrannu adnoddau a rheoli a chyflenwi blaenoriaethau gwasanaeth o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol cadarn
- Y gallu i ddadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn
- Y gallu i weithio gyda'r cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn arwain y sefydliad yn effeithiol. Lle y bo angen, byddwch yn dangos sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddwyn y cyfarwyddwyr gweithredol i gyfrif am berfformiad gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd
- Y gallu i gyfrannu at brosesau 'Llywodraethu' y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau
- Profiad o weithio mewn cymunedau a thimau amlddisgyblaethol, a gyda rhanddeiliaid pwysig mewn llywodraeth leol.

Priodoleddau Personol a Sgiliau

Mae gan y Bwrdd Iechyd set o werthoedd ac ymddygiadau craidd a rennir – sef yr hyn y mae'r sefydliad yn ei gynrychioli. Bydd angen ichi allu dangos y canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu da a'r gallu i ymgysylltu â chyflogeion a chynrychiolwyr cyflogeion ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill;
- Y gallu i gynnwys rhanddeiliaid a gweithio gyda nhw i helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau;
- Y gallu i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth a'i hadolygu'n feirniadol.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf Penodol i'r Rôl

Bydd angen ichi ddangos:

- Dealltwriaeth ac empathi ynghylch materion a blaenoriaethau cymunedol lleol;
- Canolbwyntio ar ddinasyddion wrth hyrwyddo diben y Bwrdd o ran gwasanaethu'r cyhoedd;
- Profiad a sgiliau a fydd yn cefnogi'r Bwrdd Iechyd wrth ddatblygu ei ymgysylltiad â'r gymuned.

Enghreifftiau yn unig yw'r rhain ac ni fwriedir iddynt fod yn hollgynhwysfawr.

Yr Iaith Gymraeg

Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y GIG yng Nghymru.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Mae pencadlys y Bwrdd Iechyd yn ysbyty St Cadocs, Caerllion, lle cynhelir y mwyafrif o gyfarfodydd y bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgor. Disgwylir i aelodau'r Bwrdd fynychu digwyddiadau a gweithgareddau ledled ardal y Bwrdd Iechyd.

Ymrwymiad Amser: Mae swydd Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o 13 diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad a gall fod yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Hyd y penodiad: Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fydd yn pennu hyd y penodiad, a fydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Er hynny, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Is-gadeirydd yn parhau'n gymwys drwy gydol y cyfnod hwn. Gall aelodau'r Bwrdd fod yn aelod o'r Bwrdd am uchafswm o wyth (8) mlynedd.

Taliad cydnabyddiaeth: Bydd yr Is-gadeirydd yn cael £56,316 y flwyddyn a delir

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

mewn ôl-daliadau yn fisol neu'n chwarterol, fel y cytunwyd gyda'r Bwrdd Iechyd.

Lle caniateir i'r Is-gadeirydd gael amser i ffwrdd o'i swydd bresennol gyda thâl i gyflawni ei ddyletswyddau, ni chaiff unrhyw dâl ychwanegol am ymgymryd â rôl yr Is-gadeirydd. Caiff ei drin yn yr un ffordd â gweithwyr eraill sy'n cael amser i ffwrdd o'u swydd bresennol gyda thâl i ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.

Treuliau:

Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebau ar gyfer costau teithio a chynhaliadau a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellir talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill hefyd, os cyflwynir derbynebau, yng nghydestun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Atebolrwydd:

Penodir yr aelodau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn atebol i'r Ysgrifennydd hwnnw drwy'r Cadeirydd am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth i Aelodau Anabl: Lle bo'n briodol, bydd pob addasiad rhesymol yn cael ei wneud, er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Bydd unigolyn yn cael ei ddiarddel o'r penodiad os bydd:

- a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
- b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwr
- c. wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth Iechyd
- d. yn berson y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth Iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth Iechyd, am iddo beidio â mynychu cyfarfodydd neu am iddo beidio â datgelu buddiant ariannol;
- e. yn cael ei gyflogi gan gorff gwasanaeth Iechyd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Yn amodol ar yr eithriad a nodwyd yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaethau'r GIG dreulio cyfnod heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer un o Benodiadau Cyhoeddus y GIG.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro rhwng Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn hysbys a hwythau wedi eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

<http://www.legislation.gov.uk/ukxi/2015/1536/contents/made>

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Os cânt eu penodi, bydd angen i is-gadeiryddion ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi arddangos safonau uchel o ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus, ac fe allwch weld y ddogfen hon yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/governance/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Atodiad B

Swyddogaeth a Chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cefndir

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan gyllideb o ychydig dros £1 biliwn. Cafodd ei sefydlu yn 2009 fel Bwrdd Iechyd Lleol integredig sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflenwi ystod eang o wasanaethau sylfaenol, cymunedol ac eilaidd i bobl Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol hefyd am weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo a gwella iechyd a lles ei bobl leol. Gan gyfrif yr amcangyfrif o gleifion sy'n byw yn Ne Powys ac ardaloedd eraill sy'n derbyn gwasanaethau aciwt gan y Bwrdd, mae bron i 600,000 o gleifion yn cael eu gwasanaethu ganddo. Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn comisiynu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cael eu sicrhau trwy gontractau a threfniadau contract â darparwyr o Gymru, Lloegr ac o'r Trydydd Sector.

Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol dri ysbyty aciwt sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau i gleifion preswyl ac allanol: sef Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd; Ysbyty Ystrad Fawr yn Ystrad Mynach ac Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Mae yna hefyd ysbytai a chyfleusterau amrywiol eraill wedi'u lleoli ar draws ardal y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cyflogi 400 o Ymarferwyr Cyffredinol a Meddygon Teulu Cyflogedig sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol o 88 o Bractisau Cyffredinol. Mae 214 o nyrsys practis, 145 o weithwyr cymorth gofal iechyd ac amryw o staff gweinyddol, sy'n cynnwys rheolwyr practisau, derbynyddion, ysgrifenyddion a swyddogion TG, yn eu cefnogi. Mae tua 375 o Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol o 79 o bractisau. Mae yna 129 o Fferyllfeydd Cymunedol a 69 o leoliadau Optometreg ar draws y Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn cynnig ystod gynyddol o wasanaethau yn y gymuned yng nghartrefi cleifion, trwy ysbytai cymunedol a thrwy canolfannau iechyd a chlinigau. Mae yna rai ysbytai cymunedol llai eu maint, a chanolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, a chanolfannau iechyd sy'n darparu gwasanaethau clinigol pwysig i'n dinasyddion yn nes at eu cartrefi.

Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol hefyd yn darparu gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu cynhwysfawr mewn ysbytai ac yn y gymuned i bobl Gwent a De Powys.

Rôl y Bwrdd

Y tair rôl allweddol sy'n rhan o waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i gynnal arweinyddiaeth i'r sefydliad yw:-

- Llunio strategaeth
- Sicrhau atebolrwydd trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrhwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy
- Siapio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel dethol yn asesu eich cais, o safbwynt eich CV a'ch datganiad personol, i benderfynu a ydych yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a'r cwestiynau a ofynnwyd i chi eu hateb fel rhan o'ch datganiad personol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Ann Lloyd, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Tesneem Ahmad, cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ac Aelod Annibynnol o'r Panel, i'w gadarnhau.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar restr hir, cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn tynnu'r rhestr fer i'w hystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod yr wythnos yn dechrau 21 Mai 2018 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad, a fydd yn cael ei gynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 11 Mehefin 2018.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac os nad ydy dyddiad y cyfweiliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweiliad a drefnir, byddwn yn gwneud ein gorau i ail-drefnu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd y cyfyngiadau amser yn yr amserlen ar gyfer penodi, a bydd yn dibynnu hefyd ar argaeledd y panel dewis.

Fe gewch e-bost gan y system Penodi i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Rydym yn bwriadu cynnal y cyfweiliadau ym mhencadlys y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty St Cadocs, Caerllion.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Bydd ymgeiswyr sy'n 'benodadwy' yn ôl y panel yn cael eu hargymell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Ysgrifennydd y Cabinet ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd bwch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi'u cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses honno.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a fydd yn cadarnhau'r telerau ar gyfer cynnig y penodiad. Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â Desg Gymorth y Cydwasanaethau Corfforaethol ar 03000 255454 neu publicappointments@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gŵynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â 3000 255454 neu PublicAppointments@llyw.cymru.